**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/MDFWL/0003/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

13 Ionawr 2025

Annwyl Mike

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad am ei waith craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr 2024.

Rwyf wedi nodi ymateb y Llywodraeth i argymhellion a chasgliad y Pwyllgor yn yr Atodiad i’r llythyr hwn.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a’r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD**

## Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

## Ymateb y Llywodraeth i argymhellion Adroddiad Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **ARGYMHELLION** | | | | |
| **Argymhelliad 1** - Dylai Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu unrhyw asesiad a wneir gan Lywodraeth Cymru o ymgysylltiad y Bil â'r hawliau a ddiogelir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac, yn benodol, Erthygl 2 o Brotocol 1 i, ac Erthygl 14 o, y Confensiwn. | Gweler sylwadau'r Llywodraeth yng ngholofn 5. | Na | Na | Fel yw'r achos gyda phob un o gynigion biliau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad Hawliau Dynol llawn cyn cyflwyno, ac rydyn ni'n fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio.<br><br>Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried holl erthyglau perthnasol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), gyda ffocws penodol ar Erthygl 2 o'r Protocol 1 Cyntaf, a'i ddarllen ynghyd ag Erthygl 14 o'r Confensiwn.<br>Rwy'n ystyried bod y darpariaethau'n dilyn y nod cyfreithlon o sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol fel defnyddwyr Cymraeg annibynnol. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Y nod yw i bob disgybl ddatblygu sgiliau llafar sy'n cyfateb i lefel B2 oleiaf y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).<br><br>Rwyf hefyd yn fodlon bod y darpariaethau yn y Bil yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod dilys. Rwy'n fodlon bod darpariaethau'r Bil yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau a rhyddid yr unigolyn a'r budd cyffredinol, ac nid yw'n gwneud mwy nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod hwnnw. Ar y sail honno, daeth y Llywodraeth i'r casgliad bod y Bil yn cydymffurfio â'r ECHR. |

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad yw'r Bil yn defnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu'r mathau hynny o ddefnyddwyr Cymraeg, fel y'u cyflwynir yn y Tabl yn Atodlen 1, fel sail i unigolion asesu eu gallu ieithyddol at ddiben cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn unol â darpariaethau yn Rhan 1. | Derbyn | Na | Na | Nid yw'r Bil yn defnyddio'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer disgrifio gallu defnyddwyr Cymraeg, yn unol â Thabl Atodlen 1, fel sail i unigolion asesu eu gallu ieithyddol at ddiben cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Rydyn ni'n credu mai mater i'r unigolyn yw penderfynu a yw'n disgrifio ei hun fel siaradwr Cymraeg ai peidio. Rydym yn ddiwyro o ran yr egwyddor bod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, ac felly mae'r Bil yn cadarnhau y bydd unigolion yn hunanasesu a ydynt yn siaradwyr Cymraeg.<br><br>Fodd bynnag, yn anochel bydd cysylltiad gyda'r lefelau cyfeirio cyffredin dros amser gan ein bod yn gosod nodau dysgu Cymraeg ar ysgolion. Wrth i ddisgyblion gyrraedd y nod o allu siarad Cymraeg ar lefel B2, bydd dilyniant wrth i'r disgyblion hynny ddisgrifio eu hunain yn siaradwyr Cymraeg at ddibenion darpariaethau Rhan 1 maes o law. |
| **Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai cynnwys y termau "siaradwyr Cymraeg" a "defnyddwyr Cymraeg" yn y Bil arwain at unrhyw ddryswch ac, os felly, nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gyfyngu ar hyn. | Derbyn | Na | Na | Rydyn ni'n cadarnhau nad ydyn ni o'r farn y gallai cynnwys y termau "siaradwyr Cymraeg" a "defnyddwyr Cymraeg" yn y Bil arwain at unrhyw ddryswch. Mae'r term 'defnyddwyr Cymraeg' yn cwmpasu sgiliau eraill yn ogystal â siarad – e.e. darllen ac ysgrifennu. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam nad yw'r Bil yn cynnwys cysylltiad clir ac uniongyrchol ar ei wyneb rhwng y targed statudol o filiwn o siaradwyr | Derbyn | Na | Na | Rydyn ni'n ddiwyro ynghylch y ffaith bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, ac felly nid yw'n ddymunol gosod trothwy penodol i bobl hunanadnabod fel siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, wrth i'r Cod gael ei gyhoeddi maes o law, bydd hyn yn grymuso pobl i adnabod pa lefel yw eu sgiliau, a bydd hyn yn hwyluso gwaith y Llywodraeth o gasglu data manylach, mwy soffistigedig ynghylch sgiliau Cymraeg pobl. |

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i’r Bil | Newid i’r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg erbyn 2050 a gynhwysir yn Rhan 1 o’r Bil a’r nodau dysgu Cymraeg a gynhwysir yn Rhan 3, fel y cynigir yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil. | | | | |
| **Argymhelliad 5.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a ddylid cynnwys ar wyneb y Bil ddyddiadau penodol erbyn pryd y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â phennu dyddiadau dechrau’r cyfnodau cyntaf ar gyfer cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg mewn ysgolion a chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, a’r cyfnod cynllunio cyntaf ar gyfer cynllun strategol yr Athrofa Dysgu Cymraeg. | Gwrthod | Na | Oes | Mae adran 26(3) y Bil yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gerbron y Senedd cyn 31 Gorffennaf 2028. Rydyn ni wedi ystyried cynnwys ar wyneb y Bil ddyddiadau penodol ar gyfer rheoliadau a chynlluniau eraill.<br><br>Rydym o’r farn na fyddai’n briodol gwneud hynny gan bo cynifer o ddibyniaethau rhwng gwahanol elfennau’r Bil. Er enghraifft, tan bod y Rheoliadau ar gategorïau iaith ysgolion a’r CSCA yn eu lle ni fydd modd i’r Cynlluniau Cyflawni fod yn weithredol.<br><br>Serch hynny, mae’r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i weithredu’r Bil ac i’r perwyl hwnnw rydym wedi gosod amserlen dangosol a’i rannu gyda’r Pwyllgor. Byddwn hefyd yn ychwanegu’r amserlen i'r Datganiad o Fwriad Polisi. Rydyn ni’n hyderus y bydd Pwyllgorau’r Senedd yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif yn hyn o beth. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu â’r Pwyllgor unrhyw asesiad a wneir gan Lywodraeth Cymru ar yr effaith ar ddealltwriaeth o’r gyfraith a’i hygyrchedd sy’n deillio o’r defnydd o’r | Derbyn | Na | Na | At ddibenion Rhan 3 a Rhan 4 yn unig y diffinnir ‘addysg Gymraeg’ ag mae’n berthnasol yng nghyd destun darpariaethau lle defnyddir y term.<br><br>Mae’r diffiniad yn ymddangos ar ddechrau’r rhan a nid yn adran 49 (Dehongli) fel ei fod yn hygyrch i’r darllenydd.<br><br>Mae’r diffiniad ei hun yn ddiamwys – mae’n cynnwys dwy elfen sef:<br>a. Addysgu’r Gymraeg (fel pwnc), a<br>b. Addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. |

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| term "addysg Gymraeg" yn y Bil. | | | | Y polisi yw bod 'addysg Gymraeg' wedi ei gyfyngu i'r addysg a hyfforddiant yn ystod sesiynau ysgol. Mae adran 10(2)(a) yn adlewyrchu hyn. Rydym wedi ystyried yn sgil argymhellion y pwyllgor a ddylid gwneud hynny yn gliriach. Bwriadwn felly gyflwyno gwelliant yn ystod Cam 2 i wneud yn glir bod y diffiniad o addysg Gymraeg yn golygu addysg a hyfforddiant yn ystod sesiynau ysgol.<br><br>Pob tro y gwelir y term "addysg Gymraeg" yn Rhan 3 a 4 mae'r ddwy elfen yma yn cael eu cynnwys. Yn ddarostyngedig i'r gwelliant Cam 2, bydd hyn yn berthnasol i Categoreiddio Ysgolion, Cynlluniau Cyflawni, y Fframwaith Genedlaethol a Cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. |
| **Argymhelliad 7.**<br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu enghreifftiau o'r mathau o ddarpariaeth bellach y gall rheoliadau a wneir o dan adran 13(1) eu cynnwys. | Derbyn | Na | Oes | Mae'n gynamserol rhoi rhestr hollgynhwysol o'r hyn a allai gael ei gynnwys mewn rheoliadau o dan adran 13(1) am y rhesymau a nodwyd yn ein llythyr i'r Pwyllgor.<br><br>Fodd bynnag, gellid defnyddio'r pŵer yn adran 13(1) i wneud darpariaeth am sut ddylai ysgolion gategoreiddio eu hunain yn ystod cyfnod trosiannol . Er enghraifft, fel arfer mae ysgolion yn newid yn raddol ac felly am gyfnod fe fyddai ysgol yn darparu addysg i rai blynyddoedd yn unol ag amrediad un categori, ond yn darparu yn unol a chategori gwahanol i flynyddoedd eraill. Fe fyddai hyn am gyfnod byr fel arfer, ac yn cael ei esbonio yn y cynllun cyflawni a fydd yn cael ei gymeradwyo. Gallai rheoliadau o dan adran 13(1) wneud darpariaeth am sut dylai'r ysgol gategoreiddio ei hun yn y cyfnod trosiannol hwnnw. Byddai'r rheoliadau hynny yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. |
| **Argymhelliad 8.**<br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried pa gyfyngiadau pellach y gellir eu gosod ar y pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach o fewn | Gwrthod | Na | Na | Rydyn ni wedi ystyried pa gyfyngiadau pellach y gellid eu gosod ar y pŵer i wneud darpariaeth bellach drwy reoliadau o dan adran 13(1), ac nid ydym yn credu bod hyn yn briodol. Bydd y rheoliadau ar y categorïau yn destun ymgynghori, ac mae'n bwysig bod gennym bŵer sy'n ddigon eang i ymateb i unrhyw bwyntiau a godir yn yr ymgynghoriad hwnnw. Byddai'n gynamserol culhau'r pŵer hwn rhag iddo ein hatal rhag gallu ymateb i'r hyn a fynegir wrth ymgynghori. |

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| adran 13(1) a chyflwyno gwelliant priodol i'r Bil. | | | | |
| **Argymhelliad 9.** Dylid diwygio'r Bil i ddileu'r cromfachau o amgylch y geiriau "gydol oes" a "cenedlaethol" yn adran 23 o'r Bil ac, os bernir bod angen, dylid diwygio'r Bil ymhellach i gynnwys cyd-destun llawnach ar gyfer y geiriau hyn er mwyn helpu dealltwriaeth. | Derbyn | Oes | Na | Rydym yn derbyn y dylid diwygio'r Bil i ddileu'r cromfachau o amgylch y geiriau "gydol oes" a "cenedlaethol" yn adran 23. Caiff y newid hwn ei wneud drwy newid printio. Rydym wedi ystyried a oes angen cynnwys cyd-destun llawnach ar gyfer y geiriau hyn er mwyn helpu dealltwriaeth, ond rydym yn credu nad oes angen diwygio'r Bil i'r perwyl hwn. |
| **Argymhelliad 10.** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gosod rheoliadau drafft o dan adran 23(9). | Gwrthod | Na | Na | Yn dibynnu ar natur unrhyw ddiwygiad, fe fydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar gynnwys rheoliadau y gwnaed o dan yr adran hon ond nid yw'n briodol i osod dyletswydd ar wyneb y Bil. |
| **Argymhelliad 11.** Dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol na fydd rheoliadau o dan adran 23(9) yn cael eu gwneud nes bod 60 diwrnod wedi mynd heibio ers gosod y rheoliadau drafft. | Gwrthod | Na | Na | Rydym o'r farn fod hyn yn amhriodol ac yn ddiangen. Rheoliadau ar y math o beth sydd i'w gynnwys yn Fframwaith fyddai'r rhain. Nid yw'n gymwys i'r canlyniad, hynny yw sylwedd yr hyn sydd yn Fframwaith. Mae proses ar gyfer ymgynghori ar ddrafft o'r Fframwaith ei hun yn adran 26 ac ar adrodd ar y Fframwaith yn adran 27. |
| **Argymhelliad 12.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a ddylid diwygio'r Bil i gynnwys rhagor o fanylion ynghylch | Gwrthod | Na | Na | Rydym wedi ystyried a ddylid diwygio'r Bil i gynnwys rhagor o fanylion, ac rydym o'r farn y byddai'n gynamserol gan y gallai fod angen ystyried yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn gyntaf. Bydd rheoliadau o dan adran 33 yn nodi pa wybodaeth a olygir, ac mae'n bosibl y bydd natur y |

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| pa fath o "wybodaeth" y dylai cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ei chynnwys mewn perthynas ag ymarferwyr addysg sy'n gweithio mewn ardal awdurdod lleol. | | | | wybodaeth yn newid dros amser. Gan hynny, rydym o'r farn na ddylid diwygio'r Bil i'r perwyl hwn. |
| **Argymhelliad 13.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a wneir o dan adrannau 30 a 32 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a wnaed.[1] | Gwrthod | Na | Na | Nid yw cyfarwyddydau o'r math yma yn is-ddeddfwriaeth a dydyn nhw ddim (o ganlyniad) i'w gwneud drwy offeryn statudol. Mae'r cyfarwyddydau yn ffordd ffurfiol o'i gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ailystyried. Fel rhan o broses weinyddol, nid yw'n briodol i'r cyfarwyddydau fod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn seneddol. |
| **Argymhelliad 14.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a ddylid diwygio'r Bil i roi rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ac y gellir ei chynnwys mewn cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, yn ogystal â'r mecanwaith ar gyfer ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, a'r broses o adolygu a diwygio cynlluniau o'r fath. | Gwrthod | Na | Oes | Rydym wedi ystyried a ddylid diwygio'r Bil i gynnwys rhagor o fanylion ac o'r farn nad oes angen diwygio Bil. Mae adran 33(2) yn galluogi i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ganiatáu i gynlluniau CSCA ar y cyd gael eu llunio. Fel man cychwyn, byddant yn cynnwys yr un wybodaeth â chynlluniau awdurdod lleol unigol o dan adran 33(1), ond bydd angen ystyried os oes angen man newidiadau i'r gofynion gan bod mwy nag un awdurdod yn ymhél a'r gwaith. Os yw rheoliadau yn caniatáu CSCA ar y cyd, byddwn am ymgynghori gyda rhanddeiliaid i ddeall yn well sut y byddai'r cydweithio hwnnw'n gweithio, a pha addasiadau y gallai fod eu hangen mewn CSCA ar y cyd.<br><br>Byddwn yn diwygio'r dogfennau ategol i adlewyrchu'r pwynt uchod. |
| **Argymhelliad 15.** | Derbyn | Oes | Oes | Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn. |

[1] Pŵer i wneud cyfarwyddydau sydd yn adran 30 a 32 y Bil. Mae camgymeriad yng ngeiriad yr argymhelliad hwn yn adroddiad Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Mae testun Saesneg yr adroddiad yn gywir.

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ychwanegu paragraff 2(4) o Atodlen 2 at adran 52(4) ac, os nad dyna fwriad Llywodraeth Cymru, dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio pam felly. | | | | |
| **Argymhelliad 16.** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o "addysg Gymraeg" yn adran 1(1)(c)(i) ac adran 39(2). | Derbyn mewn egwyddor | Na | Na | Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant fydd yn hepgor term "addysg Gymraeg" yn adran 1(1)(c)(i) ac adran 39(2). |
| **Argymhelliad 17.** Dylid diwygio'r Bil fel ei fod yn datgan, lle mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar ysgol a gynhelir i gyhoeddi dogfen yn electronig, ac nad oes ganddi ei gwefan ei hun, y caiff ofyn i awdurdod lleol gyhoeddi'r ddogfen ar ei rhan. | Gwrthod | Na | Na | Rydym o'r farn byddai gwelliant o'r fath yn torri ar draws natur cyffredinol yr adran. Byddai'r math yma o fanylion yn fwy addas ar gyfer canllawiau. |
| **CASGLIADAU** | | | | |
| **Casgliad 1** - Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol ond credwn y dylai'r | Nodir | Na | Na | Rydyn ni'n fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fel yw'r achos gyda phob un o gynigion biliau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad Hawliau Dynol llawn cyn cyflwyno, ac rydyn ni'n fodlon bod darpariaethau'r Bil yn cydymffurfio. |

| Argymhelliad/Casgliad | Ymateb y Llywodraeth | Newid i'r Bil | Newid i'r dogfennau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau o'r fath. | | | | |